## Managing for Wildlife

Traditional nesting sites for terns are in decline in Britain due to increased coastal development and disturbance. Because of this, the focus of conservation work at Cemlyn is centred around their protection. Wardens and volunteers are on site from late April to August to talk to visitors; protect the colony from disturbance and predation; and monitor breeding success. Butterflies, reptiles and other breeding birds are just some of the other groups regularly monitored around the reserve.

## Rheoli Bywyd Gwyllt

Mae safleoedd nythu traddodiadol i fôr-wenoliaid yn dirywio ym Mhrydain oherwydd datblygu a tharfu cynyddol ar yr arfordir. Oherwydd hyn, mae ffocws y gwaith cadwraeth yng Nghemlyn ar eu gwarchod. Mae wardeniaid a gwirfoddolwyr ar y safle o ddiwedd mis Ebrill tan fis Awst i siarad gydag ymwelwyr; gwarchod y boblogaeth rhag ysglyfaethwyr a tharfu; a monitro'r llwyddiant magu. Mae glöynnod byw, ymlusgiaid ac adar magu eraill ymhlith rhai o'r grwpiau eraill sy'n cael eu monitro'n rheolaidd yn y warchodfa.

### We rely on volunteers to manage this reserve – can you help?





### Rydyn ni'n dibynnu ar wirfoddolwyr i reoli'r warchodfa yma – fedrwch chi helpu?

**SPRING**
Little owl >
Harbour porpoise
Rockpools


**GWANWYN**
Tylluan fach >
Llamhidydd
Pyllau creigiog



Luke Massey/2020VISION

**SUMMER**
Sandwich, common and Arctic terns >
Common lizards
Sea kale

**HAF**
Môr-wenoliaid pigddu, Môr-wenoliaid cyffredin, 'Mor-wenoliaid y Gogledd >
Madfallod
Bresych y môr



Sandwich tern / Mor-wennoliaid pigddu

Bertie Gregory/2020VISION

**AUTUMN**
Grey seals >
Risso's dolphins
Red-breasted merganser

**HYDREF**
Morloi llwyd >
Dolffiniaid Risso
Hwyaid brongoch



Gemma de Gouveia

**WINTER**
Bottlenose dolphins >
Winter waders
Brown hare

**GAEAF**
Dolffiniaid trwyn potel >
Rhydwyr y Gaeaf
Ysgyfarnogod



John MacPherson/2020VISION

This nature reserve is one of more than 30 owned or managed by North Wales Wildlife Trust. By working with other landowners, managers and communities we aim to restore, recreate and reconnect fragmented natural habitats to achieve a landscape where wildlife can flourish and people can lead happier and healthier lives.

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

**You can help protect wildlife by ...**

- **becoming a member** for just a few pounds per month
- **volunteering** to help
- **considering a Living Legacy** – a gift in your Will, whether small or large, would leave your footprint in our landscape for ever

Mae'r warchodfa natur yn un o fwy na 30 o eiddo i neu a reolir gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Trwy weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr a chymunedau ein nod yw adfer eraill, ail-greu a ail-gysylltu cynefinoedd natuirol tameidiog i gyflawni tirwedd lle gall bywyd gwyllt ffynnu a gall pobl fyw bywydau hapusach ac yn iachach.

Rydyn ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plîs helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

**Gallwch chi helpu i warchod bywyd gwyllt drwy ...**

- **dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- **gwirfoddoli** i helpu
- **ystyried gadael Rhodd Fyw** – byddai rhodd yn eich Ewyllys, boed fach neu fawr, yn gadael ôl eich troed ar ein tirwedd am byth

Join as a family member to receive our fun-filled *Wildlife Watch* or *Gwyllt!* magazines – and become part of the UK's leading environmental action club for kids!

Ymunwch fel aelod teulu i dderbyn ein cylchgronau difyr – *Wildlife Watch* neu *Gwyllt!* – ac i fod yn rhan o glwb mwyaf blaenllaw y DU sy'n cynnig cyfle i blant weithredu dros yr amgylchedd!



# Gwarchodfa Natur Cemlyn Nature Reserve

Ymddiriedolaeth natur Wildlife Trust Gogledd Cymru North Wales



Tom Marshall

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future


## LOCATION / LLEOLIAD

NorthWales WildlifeTrust

@North_Wales_WT









Cemlyn is on the north coast of Anglesey, to the west of Wylfa Nuclear Power Station. Turn off the A5025 at Tregele. To reach the west car park (west and closest to the tern viewing area – SH329 935: OS Explorer Map 262), continue L, taking the option to the R at each subsequent fork.

Mae Cemlyn ar arfordir gogleddol Ynys Môn, i'r gorllewin o Orsaf Pŵer Niwclear Wylfa. Trowch oddi ar yr A5025 yn Nhregele. I gyrraedd maes parcio'r 'traeth' (dwyrain), dilynwch y ffordd a throi'n sydyn i'r dde yn y fforch gyntaf. I gyrraedd maes parcio 'Bryn Aber' (gorllewin ac agosaf at fan gwylio'r warden – SH329 935: Map OS Explorer 262), ewch ymlaen i'r chwith, gan fynd i'r dde wedyn ym mhob fforch ddowch chi iddi.

**www.northwaleswildlifetrust.org.uk**


**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
**North Wales Wildlife Trust**
Llys Garth, Garth Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351541
info@northwaleswildlifetrust.org.uk


*Charity number / Rhif elusen: 230772 Company number / Rhif cwmni: 773995*

giving nature a home · rspb · Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

## Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

**Respect other people**
- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

**Protect the natural environment**
- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs on leads during the bird nesting season (April – July)
- Never pick or uproot plants

**Enjoy the outdoors**
- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs

## Y Côd Cefn Gwlad


Cadwch at y Côd Cefn Gwlad bob amser a chofio'r canlynol:

**Parchu pobl eraill**
- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at lwybrau a thraciau sydd wedi'u marcio

**Gwarchod yr amgylchedd naturiol**
- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn ar dennyn yn ystod tymor nythu'r adar (Ebrill – Gorffennaf)
- Peidiwch byth â chasglu nad adwreiddio planhigion

**Mwynhau'r awyr agored**
- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

## E-NEWS / E-NEWYDDION



*E-natur* is North Wales Wildlife Trust's free, monthly e-newsletter. Each copy contains three of four stories of interest to everyone who supports our work, plus details of our forthcoming events. Sign up today!

**www.northwaleswildlifetrust.org.uk/e-natur**

*E-natur* yw e-gylchlythyr misol rhad ac am ddim Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae pob copi yn cynnwys tair neu bedair stori o ddiddordeb i bawb sydd yn cefnogi ei'n gwaith, yn ogystal â manylion o ein digwyddiadau sydd i ddod. Cofrestrwch heddiw!

# Gwarchodfa Natur
# Cemlyn
# Nature Reserve

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST GOGLEDD CYMRU NORTH WALES


Cemlyn from the east / Cemlyn o'r dwyrain

## Welcome!

Situated on the wild north coast of Anglesey, with its unique, elliptical shingle ridge, Cemlyn is an incredible site to visit. The ridge, known as Esgair Cemlyn, is an important habitat for specialist plant species such as sea kale, sea campion and yellow horned-poppy. Beyond the ridge, the shallow lagoon is an interesting habitat for aquatic species such as the rare spiralled tassleweed and the coastal grassland of the headland has a wide range of invertebrate life. The site is best visited from May through to July when the islands within the lagoon host the nesting colonies of Sandwich, Arctic and common terns. It is the only nesting colony of Sandwich terns in Wales and a true wildlife spectacle.


## Croeso!

Wedi'i leoli ar arfordir gogleddol gwyllt Ynys Môn, gyda'i esgair unigryw, hirgrwn o ro mân, mae Cemlyn yn safle anhygoel i ymweld ag ef. Mae'r esgair, sef Esgair Cemlyn, yn gynefin pwysig i rywogaethau arbenigol o blanhigion, fel bresych y môr, gludlys arfor a phabi corniog melyn. Y tu hwnt i'r esgair, mae'r môr-lyn bas yn gynefin diddorol i rywogaethau dyfrol fel y dyfrllys troellog prin ac mae amrywiaeth eang o infertebrata'n byw yng nglaswelltir arfordirol y pentir. Yr amser gorau i ymweld â'r safle yw rhwng misoedd Mai a Gorffennaf pan mae ynysoedd y môr-lyn yn croesawu poblogaethau'n nythu o fôr-wenoliaid Pigddu, y Gogledd a Chyffredin. Dyma'r unig boblogaeth nythu o'r Fôr-wennol Bigddu yng Nghymru ac mae'n olygfa drawiadol iawn ym myd natur – peidiwch â'i cholli!


Our wardens and a team of volunteers help protect the terns / Mae ein wardeniaid a thîm o wirfoddolwyr yn helpu i warchod y môr-wenoliaid

**DID YOU KNOW?**
The wildlife at Cemlyn, and the birds in particular, have been monitored by wardens every summer for the last 37 years, providing a fascinating look into our changing coasts.

**WYDDOCH CHI?**
Mae bywyd gwyllt Cemlyn, a'r adar yn benodol, wedi cael eu monitro gan wardeniaid bob haf am y 37 mlynedd diwethaf, gan roi gwybodaeth ryfeddol am sut mae ein harfordir yn newid.



### KEY / CANLLAW

- Public footpath / Llwybr Cyhoeddus
- Reserve boundary / Ffin y warchodfa
- Grassland / Glaswelltir
- Lagoon / Môr-lyn
- Gorse / Eithin
- Open water / Dwr agored
- Parking / Parcio

N, E, S, W

0m — 250m

### Health and Safety

The shingle ridge is inaccessible for wheelchair users and prams, and challenging for those of limited mobility. During the spring-summer breeding season, please obey the wardens and fencing, staying on the seaward side of the ridge to avoid unnecessary disturbance to the birds.

### Iechyd a Diogelwch

Nid oes posib mynd ar yr esgair o ro mân mewn cadair olwyn ac nid oes posib mynd â phramiau arni chwaith. Mae hefyd yn heriol i bobl ag anawsterau symud. Yn ystod tymor magu'r gwanwyn a'r haf, byddwch yn ufudd i'r wardeniaid a'r ffensys os gwelwch yn dda, gan gadw ar ochr y gwymon i'r esgair er mwyn osgoi tarfu'n ddiangen ar yr adar.

**Where next?** Cors Goch (17 miles), near Llanbedrgoch: a mosaic of habitats famed for its fen. Listen out for the distinctive call of the grasshopper warbler in summer!

**Ble nesaf?** Cors Goch (17 milltir), ger Llanbedrgoch: clytwaith o gynefinoedd ac yn enwog am ei chorstir. Gwrandewch am gri nodedig telor y gwair yn ystod yr haf!

The western headland, known as 'Trwyn Cemlyn', is a lovely spot for a picnic and a touch of rock-pooling. Remember to look out to sea for chance encounters with gannets, porpoises, and curious seals!

Mae'r pentir gorllewinol, sef 'Trwyn Cemlyn', yn llecyn hyfryd am bicnic ac i archwilio'r pyllau creigiog. Cofiwch gadw llygad allan tua'r môr am wylanwyddau, llamhidyddion a morloi chwilfrydig!




Beadlet anemone / Anemoni



Arctic tern chick/ Cyw fôr-wennol y gogledd

The tern colony is a real summer highlight with large numbers of Sandwich tern nests on the islands in the lagoon. Get a close-up view as they fly back and forth overhead, bringing fish back to the nest.

Mae'r boblogaeth o fôr-wenoliaid yn uchafbwynt yn ystod yr haf gyda nifer fawr o Fôr-wenoliaid Pigddu'n nythu ar yr ynysoedd yn y môr-lyn. Edrychwch yn fanwl arnyn nhw wrth iddyn nhw hedfan yn ôl ac ymlaen uwch ben, yn cludo pysgod yn ôl i'w nyth.


Sea kale / Bresych y môr

Sculpted by the sea and its storms, the curving shingle ridge, Esgair Cemlyn, is always changing. Look out for the tiny speckled chicks of the ringed plover in summer, and specialist plants such as sea kale, yellow horned-poppy and sea beet.

Wedi'i cherflunio gan y môr a'i stormydd, mae'r esgair o ro mân ar dro, Esgair Cemlyn, yn newid o hyd. Cadwch lygad am gywion brith bach y cwtiad torchog yn ystod yr haf, a phlanhigion arbenigol fel bresych y môr, y pabi corniog melyn a betys y môr.






Brown hare / Ysgyfarnog

Cemlyn is surrounded by a patchwork of grassland that is home to lots of birds and mammals, like brown hare, and the more elusive stoats and weasels. It's also a safe haven for migrant birds in spring and autumn!

Mae Cemlyn wedi'i amgylchynu gan glytwaith o laswelltir sy'n gartref i lawer o adar a mamaliaid, fel ysgyfarnogod, a gwencïod a charlymod swil. Mae hefyd yn hafan ddiogel i adar mudol yn y gwanwyn a'r hydref!

The EU LIFE Roseate Tern Recovery Project is working to restore current and former roseate tern colonies around the UK and Ireland, including at Cemlyn. Here we have provided additional nesting habitat and protection measures to improve the breeding success of our terns. And, we hope, this will encourage the beautiful roseate tern to nest here once again.

Mae Prosiect EU LIFE Adfer y Fôr-wennol Wridog yn gweithio i adfer cytrefi y fôr-wennol wridog syn bodoli ac rhai sydd wedi bod yn bodoli cynt o gwmpas y DU ac Iwerddon, yn cynnwys Cemlyn. Yma rydym wedi darparu cynefinoedd nythu ychwanegol a mesurau amddiffynnol i wella llwyddiant bridio y môr-wenoliaid. A, gobeithiwn y bydd hyn yn annog y Môr-wennol Wridog hardd i nythu yma unwaith eto.

LIFE14 NAT/UK/000394 has been funded with the contribution of the LIFE Programme of the European Union.
Ariannwyd LIFE14 NAT/UK/000394 gan gyfraniad Rhaglen LIFE o'r Undeb Ewropeaidd.

**Over 100 walks, talks and family events!**
**www.northwaleswildlifetrust.org.uk/events**
**Mwy na 100 o deithiau cerdded, sgyrsiau a digwyddiadau i deuluoedd**

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future